CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

# Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn Neuadd y Cwrwgl, Llechryd nos Lun 4 Ebrill 2016

Presennol: Cadeirydd: Cyng. Mrs Amanda Edwards. Cyngr Iwan Davies, Colin Lewis, Mrs J Hawkes, Peter Hazzelby, Bryan Rees, Mrs K Morgan

Ymunodd y Cyng Sirol Haydn Lewis a'r Cyng K Symmons â'r cyfarfod fel y nodir yn y cofnodion.

Aelodau'r cyhoedd: 0

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**
Roedd ymddiheuriadau wedi dod oddi wrth y Cyngr G Evans ac E Davies
Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**2. Gweddi Agoriadol**

**3. Datgelu Buddiannau Personol**
Dim

**4. Materion Personol**
Dim

**5. Ceisiadau Cynllunio**
Cais A160154
Codi Annedd Fforddiadwy, tir yn ffinio â Talar-wen, Llangoedmor
Yn dilyn trafodaeth cytunodd y Cyngor Cymuned i gefnogi'r cais
GWEITHREDU: Rhoi gwybod i Gyngor Sir Ceredigion (CSC) GAN: Y Clerc

CSC:
Dogfennau'r Pwyllgor Rheoli Datblygiad
Nodwyd

Dywedodd y Cyng Sirol H Lewis y byddai CSC yn clirio'r coed a'r sbwriel wrth y bont pan fyddai lefel y dŵr yn yr afon yn ddiogel. Byddai'r gwaith ar y system i atal coed yn mynd ymlaen yn ystod blwyddyn ariannol 16/17. Cytunwyd i gysylltu â CSC i ofyn am roi blaenoriaeth i'r gwaith ar y system i atal coed cyn iddynt wneud niwed i'r bont.
GWEITHREDU: Cysylltu â CSC GAN: Y Clerc

**6. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
Cynigiodd y Cyng B Rees y dylid derbyn cofnodion 07.03.16 fel cofnod cywir. Eiliwyd gan y Cyng J Hawkes a chytunwyd yn unfrydol.

**7. Materion yn Codi**
Gofynnwyd a fyddai'r Cyngor yn darparu medalau i blant ysgol i ddathlu pen-blwydd y Frenhines yn 90 oed. Nodwyd nad oedd pob plentyn a oedd yn byw yn y gymuned yn mynd i ysgol y pentref ac nad oedd pob plentyn a oedd yn mynd i ysgol y pentref yn byw yn y gymuned, felly, ni fyddai'r Cyngor yn darparu medalau, fel y nodwyd yng nghyfarfod mis Mawrth.

Llongyfarchwyd y Cyng K Morgan ar ei hymddeoliad yn ddiweddar.

**8. Cyllid a Gweinyddu**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | S E Houghton | Swyddfa Gartref | 25.00 | |
| | S E Houghton | Cyflog Ebrill | 249.34 | |
| | HMRC | Treth mis Mawrth | 62.20 | |
| 30.04.16 | S E Houghton | Cyflog mis Ebrill | 249.34 | AS |
| | | | 1228.46 | |

Cynigiwyd: Cyng C Lewis, eiliwyd Cyng J Hawkes, cytunwyd yn unfrydol.

Cytunwyd i gysylltu ag ULlC (Un Llais Cymru) a Llywodraeth Cymru oherwydd teimlid y dylid herio talu trethi annomestig am adeilad a oedd yn cynnig gwasanaeth i'r cyhoedd ac nad oedd yn dod â dim incwm i'r Cyngor.
GWEITHREDU: Cysylltu ag ULlC a LlC GAN: Y Clerc

Roedd y Clerc wedi darparu cysoniad banc misol o fis Medi. Dywedodd, heb fynd yn ôl i ddechrau'r flwyddyn ariannol (neu hyd yn oed ymhellach yn ôl), mai'r agosaf y gallai ddod ato oedd gwahaniaeth o 90 ceiniog rhwng y llyfr cownt ac adroddiadau'r banc.

*Archwiliad*

Nid oedd dim ymateb wedi dod i'r llythyr a oedd wedi'i anfon at archwilydd mewnol. Byddai'r Clerc yn cysylltu â Mrs J Jamison a oedd yn archwilio'r cyfrifon i Landudoch.
GWEITHREDU: Cysylltu â Mrs Jamison GAN: Y Clerc

*Asesiad Risg Ariannol*

Roedd copi o'r asesiad risg ariannol wedi'i anfon at bawb. Cynigiodd y Cyng B Rees y dylid ei dderbyn, eiliwyd gan y Cyng P Hazzelby, a chytunwyd yn unfrydol.

Gofynnodd y Clerc ai goleuadau'r ŵyl ar y gofrestr asedau oedd y goleuadau a ddefnyddid adeg y Nadolig. Cadarnhawyd hynny.

*Contact Torri Porfa*

Sylwyd bod y contractwr wedi dechrau torri'n gynnar (heb ddim cost ychwanegol). Mynegodd ei bryder am y gwydr wedi torri ar y trac rhedeg a'r cae, ac awgrymodd osod hysbysiadau i ddweud na ddylid cael gwydr ar y caeau chwarae na'r maes chwarae. Cytunwyd nad oedd pobl wedi cymryd dim sylw o hysbysiadau blaenorol, ond cytunwyd y gallai diwrnod codi sbwriel fod yn bosibl i dynnu sylw ar y broblem.
GWEITHREDU: Cysylltu â Cadw Cymru'n Daclus GAN: Y Clerc

Dywedwyd nad oedd y contractwr blaenorol wedi bod yn hapus iawn nad oedd wedi cael y contract eto a'i fod wedi cysylltu â'r Cadeirydd. Cytunwyd, pan fyddai'r contract yn cael ei drafod nesaf, hyd yn oed ar sail dyfynbris, na fyddai'r contractwyr yn cael eu henwi.

*Yswiriant*

Y Cadeirydd a'r Clerc i gwrdd i adolygu'r manylion.

*Sedd Wag Achlysurol*

Cais am y sedd wag wedi dod oddi wrth Mr Hywel Davies.
Ar ôl trafodaeth, cytunwyd i gyfethol Mr Davies ar y Cyngor.
GWEITHREDU: Cysylltu â Mr Davies a CSC GAN: Y Clerc

*Ymunodd y Cyng K Symmons â'r cyfarfod. Llongyfarchwyd ef ar orffen y daith tractorau yn llwyddiannus. Disgwylid y byddai rhywbeth tebyg i £10 mil wedi'i godi tuag ag elusen.*

*Dull Gweithredu* – rhaid mabwysiadu'r dull newydd cyn pen 6 mis.

Cytunwyd y byddid yn gofyn i bob Cynghorydd ddarllen y dull newydd, a'i lofnodi yng nghyfarfod mis Mai i ddweud ei fod wedi cael y ddogfen, ei darllen a'i deall.

*Pwyllgor Dibenion Cyffredinol*

Ar ôl trafodaeth cytunwyd i ddileu'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a llunio pwyllgorau neu grwpiau cynghori yn ôl yr angen gyda chylch gwaith penodol. Gofynnodd y Cyng C Lewis a ellid gwirio Gorchmynion Sefydlog y Cyngor a'u diwygio os oedd angen
GWEITHREDU: Gwirio'r Gorchmynion Sefydlog GAN: Y Clerc

*Gwefan*

Sylwyd bod tudalen Facebook y pentref yn dod yn fwy gweithgar. Dywedodd y Clerc, er y gallai ddiweddaru'r wybodaeth am y Cyngor ar y wefan, na allai roi'r hysbysiadau diweddaraf am ddigwyddiadau ac ati oherwydd yr amser roedd ei angen.

Byddai'n ceisio gosod dolen i'r tudalen ar y Wefan. Roedd gan y Cyng C Lewis ddogfen ar hanes Llechryd/Llangoedmor y gallai ei hafon at y Clerc.
GWEITHREDU: Dolen i'r wefan GAN: Y Clerc GWEITHREDU: Taflen at y Clerc GAN: Y Cyng C Lewis

*Cais am gymorth grant* oddi wrth Macmillan Cancer Support Wales
Mae cyfrifon elusennau ar gael ar-lein a gwybodaeth am ariannu yng Nghymru yn cael ei darparu mewn neges e-bost. Cytunwyd i fynd â'r cais ymlaen oherwydd teimlid yn gryf y dylid rhoi blaenoriaeth i grwpiau ac elusennau lleol.

*Gliniadur*
Roedd manylion wedi eu hanfon at Gynghorau penodol. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd prynu'r Dell Inspiron os oedd y cynnig yn dal ar gael.
GWEITHREDU: Archebu'r gliniadur GAN: Y Clerc

*Printiwr*
Dywedodd y Clerc fod y printiwr presennol yn ddrud i'w redeg ac efallai na fyddai'n gweithio pe bae'r gliniadur newydd yn rhedeg ar Windows 10. Dywedodd nad oedd y WIFI na'r cyfleustra sganio yn gweithio arno. Ar ôl siarad â'r Cadeirydd roedd wedi cysylltu â Chyngor Cymuned Llandudoch, a byddent hwy'n hapus (byddai hynny hefyd yn helpu'r Clerc o ran lle – peidio â chael dau brintiwr) i rannu eu printiwr presennol) gyda Llangoedmor gan rannu'r costau rhedeg 50/50.

*Contract a Thelerau ac Amodau*
Roedd y Clerc wedi dychwelyd sylwadau at y Cadeirydd, a oedd wedi dweud y byddai'n paratoi'r dogfennau wedi'u diwygio.
GWEITHREDU: Diwygio'r contract a'r telerau GAN: Y Cadeirydd

**9. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
Nid oedd ateb wedi dod oddi wrth CSC am faterion llifogydd ar Lôn y Ladi ac wrth adeilad Cardi Building Supplies a'r niwed i'r mur gyferbyn â Cilgerran TVs.
GWEITHREDU: Codi'r mater hwn gyda CSC GAN: Y Clerc

Dywedodd y Cyng C Lewis mai'r rheswm dros y broblem gyda'r golau stryd gyferbyn â'r arhosfan bysiau oedd y cyflenwad trydan, ac roedd CSC ar hyn o bryd yn methu â'i drwsio. Deallai fod y gwaith yn mynd ymlaen.

**10. Amwynderau**
*Parc ceir* – Chwilio yn y gofrestr tir
Roedd y Clerc wedi chwilio ar-lein, a chan nad oedd y Neuadd a'r Parc Ceir wedi newid dwylo ers gwneud cofrestru yn orfodol, nid oeddent wedi'u cofrestru. Gallai cyfeiriadau at hyn yn y cofnodion helpu dod o hyd i ragor o wybodaeth, a hwyrach i weithredoedd y tir. Cytunodd y Cyng P Hazzelby yn garedig i fynd drwy gofnodion y cyfnod perthnasol. Cynigiodd y Cadeirydd helpu os byddai angen.
GWEITHREDU: Cofnodion i gael eu darparu i'r Cyng Hazzelby GAN: Y Clerc

*Hawl Tramwy*
Cytunwyd efallai na fyddai dim gwybodaeth bellach am yr hawl tramwy o'r parc ceir i'r caeau chwarae yn dod i'r golwg yn ystod chwilio'r cofnodion. Penderfynwyd gohirio'r mater nes gorffen y chwilio.

*Elusen*
Roedd Mr Egan (ULIC) wedi anfon y wybodaeth am gyfansoddiad yr Elusen i adran gyfreithiol ULIC i gael cyngor.

*Banciau Poteli*
Roedd y Clerc wedi ymateb i ymholiad Tai Ceredigion pam roedd y banciau poteli wedi'u gosod ar eu tir nhw, gan nad oedd ganddynt ddim cofnod o fod wedi rhoi caniatâd (tir a oedd gynt yn eiddo i CSC ac wedi'i drosglwyddo i Tai Ceredigion) ac roeddent wedi rhoi gwybod am y materion hyn i adran Iechyd yr Amgylchedd yn CSC ynglŷn â defnyddio'r banc poteli.

*Man chwarae*
Archwilio'r man chwarae gan RoSPA a chyfarfod â Mr E Rees.
Nid aethom ymlaen wedyn â'u harchwiliadau.
Y gost i Gynghorau Plwyf, Trefi a Chymuned yw **£66.50 + TAW.** Mae'r costau hyn am hyd at 5 eitem o gyfarpar chwarae a **£3.50 + TAW** am bob eitem ychwanegol. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn awgrymu y dylid cael asesiadau risg ar gyfer mannau chware. Mae RoSPA yn cynnwys Asesiadau Risg gyda'i archwiliadau.
Cytunwyd yn unfrydol i gomisiynu adroddiad.
GWEITHREDU: Cysylltu â RoSPA GAN: Y Clerc

Roedd Mr E Rees wedi bod yn eithriadol o brysur yn ddiweddar. Byddai'r Clerc yn ceisio trefnu dyddiad ar gyfer arddangos archwiliad o'r man chwarae gydag ef.

*Goleuadau Nadolig*
Nid oedd ateb wedi dod hyd yma oddi wrth Mr Penny ynglŷn â'r teclyn wrth yr Eglwys.
GWEITHREDU: Holi am ymateb GAN: Y Clerc

**11. Prosiectau'n Parhau**
*SLt Lawrence*
Roedd y Clerc wedi methu â dod o hyd i rif ffôn ar gyfer y perthynas. Cytunwyd pan fyddai'r mur wedi'i orffen y gallai'r seremoini fynd yn ei blaen.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r Cyng G Evans GAN: Y Clerc

*Y Gofeb Rhyfel* – Y Cyng B Rees

Dywedodd y Cyng Rees ei fod wedi archebu'r plac.

*Diffibrileiddiwr* – Cadeirydd

Dywedodd y Cadeirydd y byddai cwpwrdd nad oedd yn cloi yn costio tua £450. Cytunwyd, yn lle cael cwpwrdd arall, y byddai arwyddion yn cael eu llunio i roi cyfarwyddiadau clir.
GWEITHREDU: Symud y mater ymlaen GAN: Y Cadeirydd

*Cynllunio Mewn Argyfwng* – Cyng J Hawkes

Dywedodd y Cyng J Hawkes y byddai'n crynhoi'r wybodaeth a oedd ganddi a hwyrach y gallai grŵp cynghori neu weithgor fynd drwy'r wybodaeth honno gan fod gormod o waith i un person ei wneud. Nodwyd efallai y gallai'r ysgol gael rhan yn y gwaith.

*Gwylio Cyflymder* – Cyng C Lewis

Dim diweddariad ar gael.

**12. Digwyddiadau**

*Cinio Blynyddol* – 22 Ebrill 2016, 7 ar gyfer 7.30pm

Ar ôl trafod cytunodd y Cadeirydd i newid y dyddiad i 21 Ebrill a gofynnodd i bawb anfon eu harchebion erbyn 15 Ebrill fan pellaf. Byddai'r Clerc yn rhoi gwybod i'r rheiny nad oeddent yn y cyfarfod am y newid yn y dyddiad.
GWEITHREDU: Rhoi gwybod am y newid yn y dyddiad GAN: Y Clerc

*Marathon Lluniau*

Dywedodd y Cyng B Rees fod gan yr Ysgol gryn ddiddordeb i helpu trefnu'r digwyddiad ac y byddai ar gael i argraffu'r lluniau. Awgrymodd y gallai roi gwybod i'r Clerc a'r Cadeirydd am ddyddiad cyfarfod nesaf y CARh lle byddai hyn yn cael ei drafod. Gallai fod angen cael enw addas ar gyfer y digwyddiad oherwydd roedd yn tybied efallai fod hawlfraint at yr enw 'photo marathon'.
GWEITHREDU: Rhoi gwybod am ddyddiad cyfarfod nesaf y CARh i'r Clerc a'r Cadeirydd GAN: Y Cyng B Rees

*Pentref yn ei Flodau*

Roedd tybiau plannu ar gael mewn nifer o wahanol fathau o ddefnydd yn amrywio o lai na £100 i filoedd lawer o bunnoedd. Gofynnwyd a allai tybiau plannu gael eu gwneud yn lleol. Roedd y Cyng G Evans wedi bod yn ymchwilio i hyn.

**13. Adroddiadau Cyfarfodydd**

Dywedwyd nad oedd llawer yn bresennol yng nghyfarfod yr Eisteddfod Genedlaethol yn Aberteifi. Roedd ceisiadau cychwynnol wedi'u gwneud gan ardaloedd Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan. Diolchwyd i'r Cyng I Davies am gynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod.

**14. Gohebiaeth + negesau e-bost**

Cais gan Bwyllgor y Neuadd am gael llinellau i nodi lleoedd parcio yn y parc ceir.
*Datgelodd y Cyng A Edwards fuddiant personol.*

Ar ôl trafodaeth cytunwyd, drwy ychwanegu lle parcio 'anabl' penodol a gosod lled cywir i'r lleoedd parcio, y gellid yn hawdd ostwng nifer y ceir. Ar sail hynny ni fyddai'r Cyngor yn cefnogi'r cais.
GWEITHREDU: Dweud wrth Bwyllgor y Neuadd GAN: Y Clerc

Dywedwyd bod gan CSC arian ar gael i gymunedau a oedd yn dangos diddordeb mewn delio â'u gwastraff yn lleol ac yn gynaliadwy o fewn Ceredigion. Cytunwyd i edrych ar greu tybiau plannu allan o ddefnyddiau wedi'u hailgylchu er mwyn cael yr arian.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r Cyng G Evans GAN: Y Clerc

Nodwyd hefyd y gallai grantiau fod ar gael i brynu planhigion i'w plannu.

*Gohebiaeth arall a nodwyd:*

Cais i drefnu 'Cerdded am Oes' ar ran Cymdeithas Arennau Cymru

Llythyr newyddion y gwanwyn gan Chwarae Cymru

Oddi wrth: ULlC
Polisi Cynllunio Cymru Pennod 6

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Trafod yr ymgynghoriad ar y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft |

Lansio'r Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd

**15. Cyfnewid Gwybodaeth**

Roedd y Cyng B Rees wedi tynnu lluniau o'r craciau yn y mur gyferbyn â thafarn y Saith Seren, a byddai'n eu hanfon drwy e-bost at y Clerc.
Byddai cyfarfod am Barti Pentref Llechryd yn cael ei gynnal ar 15.04.16 am 7pm.

**16. Dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'r cyfarfod nesaf – 09.05.16 - 7.00pm**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 9.10pm*